YSTADEGAU, DOGFENNU

# Gweithgaredd practis cyffredinol: Ebrill 2024 i Mehefin 2024

Gwybodaeth am apwyntiadau mewn practisau cyffredinol gan gynnwys dadansoddi modd, math o ymarferydd ac ymgynghoriad; a gweithgareddau ychwanegol penodol ar gyfer Ebrill 2024 i Mehefin 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 19 Medi 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 19 Medi 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gweithgaredd-practis-cyffredinol-ebrill-2024-i-mehefin-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Prif bwyntiau

Nodiadau

Diwygio data

Manylion cyswllt

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gweithgaredd-practis-cyffredinol-ebrill-2024-i-mehefin-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Prif bwyntiau

## Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024

- Amcangyfrifwyd bod 4.8 miliwn o apwyntiadau wedi'u trefnu mewn practisau cyffredinol, sef cynnydd o 2.2% ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.
- Mynychwyd 94.8% o'r apwyntiadau, sef lleihad o 0.2 o bwyntiau canran ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.
- Amcangyfrifwyd bod 78,000 o apwyntiadau wedi'u trefnu bob diwrnod gwaith, sef lleihad o 1.1% ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol ac amcangyfrifwyd bod 74,000 o apwyntiadau wedi'u mynychu bob diwrnod gwaith, sef lleihad o 1.3% ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.
- Roedd 65.2% o'r apwyntiadau a fynychwyd yn rhai wyneb yn wyneb, sef cynnydd o 2.3 o bwyntiau canran ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.
- Roedd 33.6% o'r apwyntiadau a fynychwyd yn rhai o bell, sef lleihad o 2.3 o bwyntiau canran ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.
- Roedd 68.2% o'r apwyntiadau a fynychwyd gyda meddyg teulu neu ragnodydd annibynnol, sef cynnydd o 0.3 o bwyntiau canran ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.
- Roedd 31.8% o'r apwyntiadau a fynychwyd gyda nyrs, gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd neu aelod arall o staff clinigol, sef lleihad o 0.3 o bwyntiau canran ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.
- Roedd 62.9% o'r apwyntiadau a fynychwyd am resymau cronig, rhesymau a gynlluniwyd neu resymau nad oeddent yn acíwt, sef cynnydd o 0.3 o bwyntiau canran ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.
- Roedd 37.1% o'r apwyntiadau a fynychwyd am resymau brys neu acíwt, sef lleihad o 0.3 o bwyntiau canran ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.

Yn ogystal ag apwyntiadau, cafodd:

- 410,000 o atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau arbenigol eu gwneud a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gweithgaredd-practis-cyffredinol-ebrill-2024-i-mehefin-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

160,000 o nodiadau ffitrwydd eu cyhoeddi
- 7.0 miliwn o alwadau eu derbyn, sy'n cyfateb i 110,000 bob diwrnod gwaith. Atebwyd chwech allan o ddeg galwad o fewn dwy funud
- 1.8 miliwn o lythyrau neu negeseuon e-bost eu hanfon, 1.3 miliwn o negeseuon testun eu hanfon a'u derbyn, a 1.5 miliwn o geisiadau digidol eu cyflwyno

## Nodiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn yn seiliedig ar ddata a dynnwyd o'r Porth Gwybodaeth Gofal Sylfaenol ar 6 Medi 2024.

## Diwygio data

Mae data ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Mawrth 2024 wedi'u diwygio yn unol â'n **polisi diwygiadau cynlluniedig**. Roedd newidiadau bach ar lefel Cymru, gyda newidiadau yn amrywio rhwng llai na 0.1% a 0.3% ar gyfer y data ynghylch apwyntiadau a rhwng llai na 0.1% a 2.5% ar gyfer y data ynghylch gweithgareddau ychwanegol dethol.

Bydd y data ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2024 a mis Mehefin 2024 yn cael eu diwygio yn y cyhoeddiad nesaf.

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Craig Thomas
E-bost: **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gweithgaredd-practis-cyffredinol-ebrill-2024-i-mehefin-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gweithgaredd-practis-cyffredinol-ebrill-2024-i-mehefin-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.